Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Lodge**

**Rhydaman**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# The Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Amman Care Services Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 5 Medi 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae The Lodge yn gartref cartrefol, a dywed y bobl eu bod yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel. Mae pob person yn treulio ei amser fel y dymuna, gyda'i ffrindiau mewn amrywiaeth o ardaloedd cymunedol, neu y tu allan yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau hamdden. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y dewisiadau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau: mae'r tîm o staff yn defnyddio'r egwyddorion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn addasu'r adolygiadau gofal a chymorth fel bod y person yn cyfrannu yn y ffordd o'u dewis. Mae pwyslais gwirioneddol ar ddatblygu a chynnal cydberthnasau personol a gwneud ffrindiau hirdymor.

Mae tîm o staff brwdfrydig, creadigol, sefydledig yn trin pob person yn y cartref gydag urddas a pharch i sicrhau bod eu lles wrth wraidd popeth maent yn ei wneud. Mae'r gweithwyr gofal yn mynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau ac yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan y rheolwr. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud yn brydlon at weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo angen, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau ei fod ar gael i'r bobl yn y cartref a'r tîm o staff.

## Llesiant

Mae'r gweithwyr gofal yn cymryd yr amser i wrando'n astud ar farn y bobl am eu trefniadau cymorth. Mae'r gweithwyr gofal yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd llesiant cyffredinol pob unigolyn. Mae pob person yn gwneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus am fod y staff yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb llawn dros eu bywydau, i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser. Er enghraifft, mae'r gweithwyr gofal yn sensitif i'r ffaith nad yw pob person wedi cael y fath gyfleoedd yn eu bywydau yn y gorffennol, felly maent yn cymryd yr amser i sicrhau mai'r dewisiadau y mae'r bobl yn ei wneud, yw'r rhai maent wir eisiau eu gwneud. Caiff pob person ei annog i gymryd rhan wrth adolygu eu cynlluniau cymorth, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol: gwelsom gynrychiolaethau graffig (cymylau geiriau) o syniadau penodol a chynlluniau roedd dau berson eisiau eu trafod yn eu cyfarfodydd, a oedd yn golygu bod y person wrth wraidd yr holl benderfyniadau sy'n effeithio ar ei fywyd.

Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd cymdeithasol/hamdden ar gael, ac mae'r tîm o staff yn gweithredu o dan arweiniad y bobl yn y cartref. Mae rhai ffyrdd poblogaidd o dreulio'u hamser yn cynnwys pantomeimiau, bowlio, sesiynau cadw'n heini, hydrotherapi, gwylio rygbi a discos. Yn ychwanegol, mae'r bobl yn trefnu eu gwyliau a'u gweithgareddau hamdden eu hunain, yn cynnwys Centre Parcs, ac mae'r tîm staff yn helpu gyda phob agwedd pan ofynnir iddynt. Mae'r tîm staff yn chwilfrydig am hoffterau'r bobl a bob amser yn ceisio rhoi syniadau newydd ar waith - mae rhai pobl wrthi'n ymchwilio i fordaith Disney - a gan amlaf bydd y bobl yn trin y rheolwr fel 'yr asiant archebu ar gyfer pantomeimiau a gwyliau'. Mae gan y bobl gydberthnasau personol gwirioneddol, ffrindiau a chysylltiadau gydag eraill y maent yn eu hadnabod drwy rwydweithio mewn digwyddiadau cymdeithasol. Siaradodd un person am eu partner, a sut roeddent yn bwriadu cyfarfod yn nes ymlaen yn y dydd. Mae gan y bobl albymau lluniau hyfryd hefyd i'w hatgoffa o bopeth maent yn ei wneud yn eu hamser hamdden.

Mae'r cartref yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg: mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol i bobl, heb fod angen iddynt ofyn am hynny. Mae dros hanner y tîm o staff yn siaradwyr Cymraeg. Dywedodd y rheolwr wrthym y gallai'r ddogfennaeth fod ar gael yn Gymraeg unrhyw bryd, ond o brofiad, mae'r bobl eisiau'r ddogfennaeth yn Saesneg, er eu bod yn siarad Cymraeg. Nodwyd gennym bod fersiwn hawdd ei darllen o'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael i bobl nad ydynt yn darllen yn dda iawn.

## Gofal a Chymorth

Mae'r tîm o staff yn gweithio'n galed i sicrhau caiff y cymorth a roddir i'r bobl ei deilwra yn ôl dymuniadau pob person. Mae hyn yn cynnwys pob gweithgarwch hamdden yn ogystal â gofynion gofal iechyd cyffredinol. Ni all rhai pobl fynegi eu hanghenion a'u dymuniadau'n glir ar lafar bob amser, felly mae'r trefniadau cymorth yn cynnwys gwybodaeth am eu dewis ffyrdd o gyfathrebu. Mae'r darparwr yn cyflogi nyrs anableddau dysgu i gael cyngor i roi cymorth ac arbenigedd penodol o amgylch anghenion gofal iechyd y bobl, a gall gael gafael ar therapydd lleferydd ac iaith ar gyfer y bobl sydd â phroblemau eraill, yn cynnwys llyncu neu dagu: mae'r cyflogeion hyn yn helpu i ddiwallu gofynion iechyd y bobl fel bod modd iddynt fwynhau eu bywydau fel y maent yn dymuno.

Mae gan y tîm staff fynediad at asesiadau risg ysgrifenedig clir sy'n sicrhau bod y bobl mor annibynnol a sy'n bosibl iddynt fod, gyda phwyslais ar yr hyn y gall y bobl ei wneud. Er enghraifft, mae'r tîm staff yn annog pob person i ddatblygu eu cydberthnasau personol a'u ffrindiau, i roi ymdeimlad o gyflawniad a balchder yn yr hyn y gallant ei gyflawni yn eu bywydau.

Mae'r rheolwr yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion y bobl cyn iddynt ddod i fyw yn y cartref. Er enghraifft, gwybodaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol allanol megis gweithwyr cymdeithasol a'r lleoliadau blaenorol y mae'r person wedi byw ynddynt. O hyn, bydd yr uwch-aelodau o'r staff yn datblygu cofnodion gofal sy'n disgrifio gofynion cymorth y bobl yn gywir. Mae cyfathrebu da ymysg y tîm, ac mae'r uwch-aelodau o staff yn gwneud atgyfeiriadau prydlon at weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo angen. Mae'r adolygiadau o gynlluniau cymorth yn gwerthuso beth sy'n gweithio ac beth y bydd angen ei addasu ar gyfer y dyfodol, os o gwbwl. Mae'r tîm staff yn cefnogi'r bobl yn weithredol drwy ddefnyddio iPads, ystumiau, cyffyrddiadau, arwyddion a chymhorthion cyfathrebu pwrpasol eraill.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Maent yn cael diweddariadau hyfforddiant diogelu rheolaidd ac yn dweud wrthym fod yr uwch-aelodau o'r staff yn eu cefnogi'n dda a'u bod ar gael bob amser i roi cyngor os bydd angen. Byddent yn siarad â'r rheolwr neu'r Unigolyn Cyfrifol, ond byddent yn cysylltu ag asiantaethau allanol, fel y swyddfa ddiogelu leol, pe byddent o'r farn bod angen gwneud hynny.

Mae'r rheolwr wedi datblygu polisïau a gweithdrefnau manwl i reoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da ar waith ym mhob rhan o'r cartref a gall y gweithwyr gofal gyfeirio at bolisïau rheoli heintiau lle bo angen.

## Yr Amgylchedd

Mae The Lodge yn adeilad cymharol fawr. Mae'n gynnes ac yn lân, a dywed y bobl eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hapus. Mae pob ystafell wely yn fawr ac wedi'u personoli'n llawn i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r person, wedi eu haddurno yn unol â'u dymuniadau, gydag ornamentau, llenni a deunyddiau, lluniau a dodrefn.

Mae'r cyfleusterau a'r cyfarpar yn hybu annibyniaeth pob person gymaint â phosibl: mae'r coridorau ym mhob rhan o'r safle yn helpu'r bobl na allant symud yn dda, ac yn sicrhau bod digon o le ar gyfer y cyfarpar a ddefnyddir yn rheolaidd gan y bobl, megis cadeiriau olwyn a theclynnau codi. Yn ogystal, mae digonedd o draciau nenfwd, sy'n helpu'r bobl i symud o amgylch eu hystafelloedd, gan gynnwys mynd i'r gawod neu'r ystafell ymolchi pan fyddant yn dymuno gwneud hynny. Mae'r décor yn olau a'n adfywiol ym mhob rhan o'r adeilad.

Ceir gardd fawr y tu allan yng nghefn y lleoliad. Mae'r tîm staff wedi cynnwys y bobl a'u teuluoedd wrth ddatblygu'r gofod hwn. Mae ffensys lliwgar o amgylch yr ardal, ac mae enfys goffaol i'w chael er cof am berson a fu farw a oedd yn adnabyddus i bawb yn y cartref. Mae'r ardal gyfan yn hawdd mynd ati, ac yn cynnwys amrywiaeth o blanhigion, seddi ac ardal synhwyraidd. Mae'n ofod i ymlacio ynddo.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel. Nid oes unrhyw rwystrau wrth yr allanfeydd tân. Caiff yr holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002 ac mae cyfarwyddiadau clir wedi'u harddangos yn y cartref sy'n nodi beth y dylid ei wneud os bydd tân.

Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad, gan fod pob ymwelydd yn canu cloch y drws ffrynt cyn dod i mewn. Caiff cofnodion gofal, cofnodion personél y cyflogeion a chofnodion Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) eu storio'n ddiogel mewn swyddfa dan glo a dim ond y gweithwyr gofal sydd ag awdurdod i'w gweld, a all gael gafael arnynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae gan y darparwr weledigaeth glir o'r gwasanaeth y dylai'r bobl ei dderbyn, ac agwedd eithriadol tuag at y bobl maent yn eu cefnogi. Mae diwylliant cadarnhaol drwy gydol y cartref, sy'n cael ei ysgogi gan y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol sy'n hynod awyddus i wella bywydau'r bobl ymhob ffordd y gallant. O ganlyniad, mae'r lefelau cadw staff yn dda ac mae'r gweithwyr gofal yn fedrus, yn greadigol ac yn gallu darparu canlyniadau o ansawdd uchel i'r bobl yn gyson.

Mae'r tîm uwch-reolwyr yn sicrhau bod y bobl yn y cartref yn arwain bywydau llawn, gyda'u safbwyntiau yn ganolog i bob penderfyniad a gaiff ei wneud. Mae'r rheolwr yn annog y staff yn gyson i fod yn greadigol, ac i gefnogi'r bobl i wneud beth maent eisiau ei wneud yn eu bywyd. Dywedwyd wrthym am lawer o enghreifftiau hyfryd ble roedd y bobl wedi goresgyn rhwystrau corfforol i gyflawni eu nodau personol, ble roedd y canlyniadau wedi adlewyrchu'r ethos sydd wrth wraidd y cartref, i gael rheolaeth dros eu bywydau.

Mae'r rheolwr yn gofyn i'r bobl a'u perthnasau am adborth am y gwasanaeth a ddarperir iddynt - mae cysylltiad rheolaidd ag aelodau'r teulu a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â gofal y bobl. Gall y cyflogeion drafod unrhyw faterion y maent am eu codi yn ystod cyfarfodydd goruchwylio cyfrinachol a gynhelir bob tri mis , gyda sesiynau goruchwylio sy'n  canolbwyntio ar hyfforddiant a pholisïau penodol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn y cartref sawl gwaith yr wythnos, mae pawb yn y cartref yn ei adnabod yn dda, ac mae'n cofnodi ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i'r bobl mewn adroddiadau ymweld manwl bob tri mis, ac mewn adroddiadau ar ansawdd y gofal bob chwe mis.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gweithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio: mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r rhaglen sefydlu staff yn gysylltiedig â chanlyniadau dysgu unigol. Mae'r gweithwyr gofal yn ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi ac mae'r lefelau cadw staff yn dda, felly maent yn adnabod y bobl yn y cartref yn dda.  Yn ogystal, mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn ysbrydoli'r tîm staff i fod yn greadigol ac i feddwl yn ehangach gyda'r bobl, i ddarganfod eu gwir ddymuniadau a'u breuddwydion. Mae'r tîm staff yn ymateb i hyn drwy roi cymorth sydd wirioneddol yn ofalgar i'r bobl am eu bod yn angerddol am y cymorth y maent yn ei ddarparu bob dydd.

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth.  Mae'r tîm o staff yn sicrhau eu bod yn diogelu unrhyw wybodaeth breifat a phersonol. Mae'r gweithwyr gofal wedi bodloni proses recriwtio drylwyr y darparwr. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r gweithwyr, er mwyn iddynt ddeall eu cyfrifoldeb i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Mae polisi a gweithdrefn diogelu'r cartref yn unol â deddfwriaeth gyfredol a gweithdrefnau diogelu lleol. Mae uwch-aelodau o'r staff yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofal yn nodi unrhyw risgiau i lesiant y bobl yn glir, ac mae'r cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel ac mor annibynnol â phosibl.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/10/2023